**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Rhagfyr 2009**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2010-11**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.** Cyflwyno'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 i'r Aelodau ar gyfer ei chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-2011, y rhagolygon ar gyfer 2011-12 a 2012-13, a'r papurau canlynol sydd wedi'u hamgáu:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A),

(ii) y cyfraniadau dros dro mae'r Awdurdodau sy'n Aelodau eu hangen (Atodiad B),

(iii) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad C).

Oherwydd cyfyngiadau amser, bydd y canlynol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau mewn cyfarfod arall: Cyflwyno'r Gyllideb mewn fformat Gwerth Gorau, Strategaeth Flynyddol Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus.

## CEFNDIR

**3.** Eleni dechreuodd y broses o osod y gyllideb yn gynnar a chyflwynwyd yr adroddiad cyntaf i'r Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf wedi'i ddilyn gan ragor o adroddiadau ym mis Medi a mis Tachwedd. Rhoddodd yr adroddiadau rhagarweiniol gyfle i'r Aelodau asesu'r pwysau sydd wedi'u nodi a'r gofynion newydd ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf a hefyd roeddent yn darparu dangosydd i swyddogion ynglŷn â'r lefel o gynnydd yn y gyllideb fyddai'n dderbyniol oherwydd y pwysau ariannol mae'r Awdurdodau Unedol yn ei wynebu oherwydd y cynnydd bach a gyhoeddwyd yn y setliad Grant Cynnal Refeniw Dros Dro ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru.

## ADRODDIADAU CYLLIDEB CYCHWYNNOL

**4.** Roedd yr adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2010-11 a gyflwynwyd i'r panel Gweithredol ym mis Tachwedd yn nodi byddai cynnydd o 3.96% yn angenrheidiol i gynnwys pwysau cyllidebol sydd wedi'u nodi a gofynion newydd.

**5.** Roedd yr Aelodau'n dynodi na fyddai'n dderbyniol, efallai, cymeradwyo gwariant ar anghenion newydd oherwydd maint y cynnydd yn y gyllideb. Mae swyddogion, rŵan, wedi edrych ar y gyllideb ddrafft eto i weld a oedd modd gwneud gostyngiadau fel bo'r cynnydd yn y gyllideb ar lefel mwy derbyniol.

## COSTAU GWEITHWYR

**6.** Cynhaliwyd dadansoddiad mwy manwl o gostau gweithwyr a chanfuwyd arbedion ar gostau pensiwn ac yswiriant gwladol.

Daethpwyd o hyd i gyllid o £128,000 ar gyfer y flwyddyn nesaf oherwydd gostyngiad a gafwyd ar ôl ad-drefnu benthyciad ar gyfer y pum swydd ychwanegol nad ydynt yn bresennol yn rhan o'r sefydliad, wedi hyn bydd yn rhaid i nawdd ddod o arbedion o fewn y gyllideb.

Mae'r gyllideb sylfaen yn ddigon i gynnwys codiad cyflog wedi'i amcangyfrif o 1% ar gyfer 2010-11 o ganlyniad i'r codiad cyflog ar gyfer 2009-10 a oedd yn llai na'r amcangyfrif cyllidebol o 2.5%. Oherwydd yr arbedion sydd wedi'u nodi uchod mae costau gweithwyr nawr yn dangos arbediad o £101,908 ar y gyllideb sylfaen.

**EIDDO**

**7.** Mae £35,680 ychwanegol wedi'i gynnwys dan gostau eiddo i gyfateb â'r gost ychwanegol o drin peiriannau ac offer i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r cynnydd grisiog mewn rhent ar gyfer Crud-y-Dderwen. Ond, mae rhai o'r costau uchod wedi'u gosod yn erbyn arbedion ar drethi annomestig cenedlaethol, £26,196, o ganlyniad i'r prisiadau newydd sy'n ffafrio'r Awdurdod.

**CLUDIANT**

**8.** Mae angen cynyddu costau cludiant i gwrdd a'r gost gynyddol o brisiau tanwydd a chostau cynnal a chadw. Mae costau cynnal a chadw a thrwsio cerbydau wedi cynyddu oherwydd fod llawer o gydrannau cerbydau wedi'u mewnforio ac mae'r raddfa gyfnewid wedi cynyddu costau y darnau. I gwrdd â'r costau ychwanegol hyn mae £68,270 ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb cludiant.

**CYFLENWADAU A GWASANAETHAU**

**9.** O fewn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau mae'r gyllideb ar gyfer yswiriant a thrwsio hydrantau wedi cynyddu'n unol â'r cynnydd sydd wedi'i nodi mewn costau. Ond, mae'r costau ychwanegol hyn wedi'u gosod yn erbyn arbedion ar y contract newydd ar gyfer rheoli PPE, sydd i ddechrau yn Ebrill 2010.

**10.** Mae aelodau'r Panel Gweithredol wedi derbyn cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cynorthwyol Hanks a Sarah Roberts, y rheolwr TGC, ynglŷn a'r prosiect cenedlaethol ar gyfer amnewid y system radio a elwir Firelink. Mae'r Cynulliad yn ariannu y costau cyfalaf a'r costau cychwynnol refeniw ar gyfer Firelink. Mae nifer o brosiectau TGC wedi'u cysylltu yn annatod i'r prosiect hwn ac mae eu hangen i uwchraddio y rhwydwaith TGC i alluogi y ddarpariaeth o wybodaeth risg gritigol i ddiffoddwyr tân. Nid dewisol yw'r cynnydd hwn o £536,000 ond angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth tân ac achub modern a diogel.

**TALIADAU CYFALAF**

**11.** Ers yr adroddiad diwethaf mae'r amcangyfrif ar gyfer y cynnydd mewn taliadau cyfalaf wedi gostwng oherwydd llithriad ar y rhaglen gyfalaf ac adrefnu benthyciadau ar raddfeydd llog mwy ffafriol. Y cynnydd wedi'i amcangyfrif ar gyfer taliadau cyfalaf ar gyfer 2010-11 yw £131,841.

**12.** Mae'r gyllideb ar gyfer llog a geir ar arian sydd ar gadw wedi gostwng £150,000 oherwydd y graddfeydd llog isel sy'n gyffredin yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

**CYLLIDEB FWRIEDIG**

**13.** Ar ôl ymgorffori'r newidiadau sydd wedi'u nodi uchod mae'r cynnig newydd ar gyfer cynnydd yn y gyllideb o 2.5% sy'n cynnwys yr holl bwysau sydd wedi'u nodi a gofynion newydd. Mae'r tabl isod yn nodi'r newidiadau i'r gyllideb gyda dadansoddiad manwl wedi'i ddarparu yn atodiad A.

| Disgrifiad | Cynnydd yn y Gyllideb | Newid % |
|---|---|---|
| CYLLIDEB WREIDDIOL | 31,311,563 | |
| Arbedion ar gostau Gweithwyr | -101,908 | -0.32 |
| Cynnydd mewn trin Offer/Rhent | 35,680 | 0.11 |
| Arbediad NNDR | -26,196 | -0.08 |
| Trafnidiaeth | 68,720 | 0.22 |
| Arbediad net ar PPE | -12,300 | -0.04 |
| Rhwydwaith TGC | 536,000 | 1.71 |
| Taliadau Cyfalaf | 131,841 | 0.42 |
| Colli Llog | 150,000 | 0.48 |
| CYFANSWM Y CYNNYDD | 781,837 | 2.50 |
| CYLLIDEB FWRIEDIG | 32,093,400 | |

**CANLYNIADAU 2009-10**

**14.** Yn ôl yr arwyddion presennol, a gyda rheolaeth ofalus, bydd y ffigwr alldro yn agos i'r gyllideb. Ar hyn o bryd mae'n debyg y bydd gorwariant bychan o £3,146.

**CYFRANIADAU**

**15.** Mae Atodiad B yn nodi'r cyfraniadau dros dro ar gyfer 2010-11 gan yr awdurdodau sy'n aelodau.

## RHAGLEN GYFALAF

**16.** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2010-11 wedi'i nodi yn Atodiad C ac mae'n cynnwys £3.69m o wariant newydd a chynlluniau a gafodd eu cymeradwyo'n flaenorol naill ai'n 2008-09 neu'n 2009-10 sy'n gyfanswm o £3.93m. Mae pob cynllun adeiladu mawr ac eithrio gwaith DDA wedi'i ohirio dros dro oherwydd bod pob cyllid wedi'i ddargyfeirio i'r datblygiad newydd yn Wrecsam. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Cynulliad ynglŷn a chyllid ar gyfer y gwaith DDA. Mae prynu peiriannau tân a cherbydau ategol yn broses gyfredol yn unol â'r rhaglen gerbydau newydd. Yn 2009-10 mae'r canlyniad wedi'i amcangyfrif ar gyfer gwariant cyfalaf yn £3.6m. Cynigir ariannu hyn o fenthyciadau.

## ARGYMHELLION

**17.** Argymhellir:

(i) bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 ar sail yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad;

(ii) bod yr Aelodau'n nodi'r ffigwr alldro ar gyfer 2009-10;

(iii) rhoi gwybod i Awdurdodau Unedol o'r cyfraniadau dros dro sydd eu hangen ar gyfer 2010-11;

(iv) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2010-11 a dulliau cysylltiedig o ariannu;

(v) os fydd newidiadau yn dod i'r golwg cyn 15 Chwefror 2010, sydd yn golygu bod angen gostwng y gyllideb dylid dirprwyo'r pŵer i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc. Dylai unrhyw gynnydd gael ei gyfeirio i'r Panel Gweithredol.